OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 Rhif 1511 (Cy. 323)

# PENSIYNAU GWASANAETHAU CYHOEDDUS, CYMRU

## Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn a Chynllun Digolledu'r Diffoddwyr Tân (Cymru) (Diwygio) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *10 Rhagfyr 2020* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru - - - -* | *14 Rhagfyr 2020* |
| *Yn dod i rym - -* | *23 Chwefror 2021* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 26(1), (2) a (5) o Ddeddf Gwasanaethau Tân 1947(**1**); adran 12 o Ddeddf Blwydd-daliadau 1972(**2**), fel y'u cymhwysir gan adran 16(3) o'r Ddeddf honno(**3**); a chan adran 34(1) i (4) o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004(**4**)(**5**), ac a freinir bellach yng Ngweinidogion Cymru.

Mae Gweinidogion Cymru hefyd yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 1(1) a (2)(f)(**6**), 2(1), 3(1) i (3) a 18(5)(a) a (6) o Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus 2013(**7**) ac Atodlenni 2 (paragraff 6(b)) a 3 (paragraffau 1 i 4) iddi.

(**1**) 1947 p. 41, a ddiddymwyd gan adran 52 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21) ac Atodlen 2 iddi. Mae is-adrannau (1), (2) a (5) o adran 26 yn parhau i gael effaith, o ran Cymru, at ddibenion y cynllun a sefydlwyd o dan yr adran honno fel Cynllun Pensiwn y Dynion Tân ac a nodir yng Ngorchymyn Cynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992 (O.S. 1992/129), yn rhinwedd erthygl 3 o O.S. 2004/2918 (Cy. 257). Newidiwyd enw'r cynllun i Gynllun Pensiwn y Dynion Tân (Cymru) gan erthygl 4 o'r offeryn hwnnw. Diwygiwyd adran 26 o Ddeddf Gwasanaethau Tân 1947 gan adran 1 o Ddeddf Gwasanaethau Tân 1951 (p. 27), adran 42 o Ddeddf y Lluoedd Wrth Gefn a'r Lluoedd Ategol (Diogelu Buddiannau Sifil) 1951 (p. 65), adran 33 o Ddeddf Dwyn 1968 (p. 60) ac Atodlen 3 iddi, adrannau 16 a 29 o Ddeddf Blwydd-daliadau 1972 (p. 11) ac Atodlen 8 iddi, adrannau 100 a 101 o Ddeddf Nawdd Cymdeithasol 1973 (p. 38) ac Atodlen 27 iddi, adran 1 o Ddeddf Nawdd Cymdeithasol (Darpariaethau Canlyniadol) 1975 (p. 18), ac Atodlen 1 iddi, adran 32(2) o Ddeddf Llysoedd Ynadon 1980 (p. 43), adran 1 o Ddeddf Pensiynau'r Heddlu a'r Dynion Tân 1997 (p. 52), adran 256 o Ddeddf Partneriaeth Sifil 2004 (p. 33) ac Atodlen 25 iddi, a chan O.S. 1976/551. I'r graddau y caiff Cynllun Pensiwn y Dynion Tân ei barhau mewn grym, o ran Cymru, yn rhinwedd O.S. 2004/2918 (erthygl 3(1)), mae adran 26(1), (2) a (5) yn cael effaith fel pe rhoddid cyfeiriad at "National Assembly for Wales" yn lle pob cyfeiriad at "Secretary of State"; gweler erthygl 2 o O.S. 2006/1672 (Cy. 160). Yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), mae'r swyddogaethau o dan adran 26 o Ddeddf Gwasanaethau Tân 1947 wedi eu breinio bellach yng Ngweinidogion Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru.

(**2**) 1972 p. 11; diwygiwyd adran 12 gan Ddeddf Pensiynau (Darpariaethau Amrywiol) 1990 (p. 7).

(**3**) Diddymwyd adran 16 gan adran 52 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004, ac Atodlen 2 iddi, ond mae'n parhau i gael effaith, o ran Cymru, yn rhinwedd erthygl 3(2) o O.S. 2004/2918 (Cy. 257).

(**4**) 2004 p. 21. Mae'r pwerau a roddir gan adran 34(1) i (4) o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 bellach wedi eu breinio yng Ngweinidogion Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru. Yr oeddent wedi eu breinio'n flaenorol yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd adran 62 o'r Ddeddf honno. Yn rhinwedd paragraffau 30 a 32 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, trosglwyddwyd hwy i Weinidogion Cymru.

(**5**) Caniateir arfer y pŵer i wneud gorchymyn o dan adran 34(4) o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 i wneud rheoliadau yn rhinwedd adran 39 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (dccc 4).

(**6**) *Gweler* hefyd adran 1(3) ac Atodlen 1.

(**7**) 2013 p. 25.

Cyn gwneud y Rheoliadau hyn, ac yn unol ag adran 34(5) o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004, ymgynghorodd Gweinidogion Cymru â'r personau hynny yr oeddent yn ystyried eu bod yn briodol.

Yn unol ag adran 21(1) o Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus 2013, mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â chynrychiolwyr y personau hynny y mae'n ymddangos yn debygol i Weinidogion Cymru y bydd y Rheoliadau hyn yn effeithio arnynt.